Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

# Gwybodaeth am y Broses Diogelu Oedolion

Mae materion diogelu **O BWYS I BAWB**
Safeguarding is **EVERYONE'S RESPONSIBILITY**

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg
You are welcome to communicate with us in Welsh

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

Mae'r daflen yma yn esbonio beth rydyn ni'n ei wneud pan fydd rhywun yn dweud wrthym ni y gallech chi fod mewn perygl o gael eich cam-drin neu eich esgeuluso.

Os yw pobl yn poeni y gallech chi fod wedi cael eich niweidio neu eich cam-drin mewn unrhyw ffordd, ein gwaith ni yw ymchwilio i hyn a sicrhau eich bod chi'n ddiogel. Yr enw ar hyn yw Diogelu.

Mae modd i ni weithio gyda'r Heddlu, y gwasanaethau iechyd, sefydliadau gwirfoddol, ac unrhyw un arall a all helpu i'ch gwarchod chi a'ch cadw chi'n ddiogel.

Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd ac yn rhannu gwybodaeth i geisio eich amddiffyn rhag camdriniaeth bellach.

**Byddwn ni'n trafod pob cam o'r broses gyda chi fel bod modd i ni weithio gyda'n gilydd i ddewis beth sydd orau i chi.**

- **Dydy cam-drin byth yn dderbyniol.**
- **Mae gan bawb hawl i gael ei drin ag urddas a pharch.**
- **Does gan neb hawl i gam-drin rhywun arall.**

www.ctmsb.co.uk

# Beth sy'n digwydd yn gyntaf?

## Mae yna bethau y mae'n rhaid i ni eu gwneud ar unwaith. Dyma nhw:

- Rydyn ni'n gwirio i weld a ydych chi mewn unrhyw berygl uniongyrchol.
- Os ydyn ni'n credu eich bod chi mewn perygl uniongyrchol, byddwn ni'n gweithio gyda chi'n gyflym i'ch gwneud yn ddiogel ac yn egluro beth sy'n digwydd i'ch cadw'n ddiogel.
- Os ydyn ni'n credu NAD ydych chi mewn perygl uniongyrchol, byddwn ni'n siarad â chi am y pryderon i ddeall beth yw eich barn chi, eich dymuniadau a'ch teimladau, ac yna'n penderfynu beth i'w wneud nesaf.
- Bydd gyda chi weithiwr proffesiynol a fydd yn siarad â chi ac yn gwrando ar yr hyn rydych chi eisiau iddo ddigwydd. Bydd y gweithiwr hefyd yn rhoi gwybod i chi beth rydyn ni'n ei wneud a pham.
- Byddwn ni'n gweithio gyda chi i wneud yn siŵr bod gyda chi'r lefel gywir o gefnogaeth.
- Os ydyn ni'n credu eich bod chi mewn perygl uniongyrchol ac efallai nad oes modd i chi wneud penderfyniadau ynghylch beth i'w wneud, byddwn ni'n gweithio'n gyflym i'ch cefnogi chi a'ch cadw'n ddiogel.
- Os nad oes modd i chi wneud penderfyniadau o ran sut i gadw'ch hun yn ddiogel, byddwn ni'n gweithio gyda phobl a all eich cynrychioli chi a'ch dymuniadau.

**Rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n dweud wrthym ni beth yw eich barn, fel bod modd i ni adolygu sut rydyn ni'n gwneud pethau a gwneud gwelliannau os oes angen.**

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

# Sut ydyn ni'n penderfynu beth i'w wneud?

Byddwn ni'n trafod ac yn casglu gwybodaeth am y pryderon, ac mae modd i ni gynnal cyfarfodydd diogelu weithiau.

Nod y rhain yw darganfod beth yw'r problemau a beth sydd angen i ni ei wneud nesaf i wella pethau.

Weithiau, efallai y bydd angen cynllun diogelu arnon ni hefyd i helpu i wneud y sefyllfa'n ddiogel.

# Beth yw cyfarfodydd diogelu?

**Caiff cyfarfodydd diogelu eu cynnal fel bod modd i ni i gyd ddod at ein gilydd i:**

- Sefydlu'r ffeithiau
- Clywed barn a dymuniadau'r oedolyn dan sylw
- Nodi a oes angen cymryd camau pellach i sicrhau eich diogelwch a'ch lles.

Bydd nifer y cyfarfodydd a gaiff eu cynnal yn dibynnu ar sefyllfa'r unigolyn a bydd yn helpu i benderfynu ar y camau gweithredu sydd angen eu cymryd.

# A oes modd i mi fod yn bresennol yn fy nghyfarfodydd diogelu?

**Mae cyfarfodydd diogelu ar gyfer gweithwyr proffesiynol.**

Bydd eich barn, eich dymuniadau a'ch deilliannau yn cael eu trafod yn y cyfarfod, gan sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed ac yn ganolog i'r broses gwneud penderfyniadau.

Rydyn ni'n ofalus iawn gyda gwybodaeth bersonol, felly dim ond gweithwyr proffesiynol sydd wir angen bod yno y byddwn ni'n eu gwahodd.

# Pwy arall fydd yn y cyfarfodydd diogelu?

**Byddwn ni'n gwahodd gweithwyr proffesiynol sydd â gwybodaeth ddefnyddiol i'w rhannu a byddan nhw'n eich helpu chi i'ch cadw'n ddiogel.**

Mae gweithwyr proffesiynol sy'n mynychu'r cyfarfod diogelu yn gwybod bod popeth a gaiff ei ddweud yn gyfrinachol.

# Eirioli

**Mae modd i ni drefnu i rywun gynrychioli eich barn, eich dymuniadau a'ch deilliannau yn y cyfarfod. Mae'r person yma'n cael ei alw'n eiriolwr.**

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

# Beth yw Cynllun Diogelu?

Os ydyn ni'n credu eich bod chi yn dal i fod mewn perygl o gael eich cam-drin, byddwn ni'n rhoi cynllun diogelu ar waith.

Bydd y cynllun yma'n nodi'r hyn sydd angen i ni ei wneud i'ch helpu chi i gadw'n ddiogel rhag niwed.

Bydd person enwebedig yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei roi ar waith.

Byddwn ni'n adolygu'r cynllun yn rheolaidd gyda chi ac unrhyw bobl eraill sy'n ymwneud â'r cynllun diogelu.

# Beth allai ddigwydd i'r person sy'n fy ngham-drin?

**Prif nod diogelu oedolion yw amddiffyn y person sydd mewn perygl a sicrhau eu bod nhw'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi. Bydd y camau a gaiff eu cymryd yn erbyn y person sydd wedi achosi niwed yn dibynnu ar yr hyn y mae'r oedolyn sydd mewn perygl ei eisiau, yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud, a'r hyn a fydd yn eu cadw'n ddiogel.**

- Os canfyddir bod rhywun yn cam-drin neu'n esgeuluso oedolyn, gall sawl peth ddigwydd, yn dibynnu ar y sefyllfa a difrifoldeb y niwed:
- Efallai y bydd yr achos yn cael ei adrodd i'r heddlu, yn enwedig os yw trosedd wedi'i gyflawni.
- Os ydyn nhw'n gynhaliwr cyflogedig, gweithiwr iechyd, neu'n wirfoddolwr, efallai y byddan nhw'n cael eu hatal neu'u diswyddo.
- Gallen nhw gael eu hatal rhag gweithio mewn rolau gofal neu gymorth yn y dyfodol.
- Bydd mesurau amddiffynnol yn cael eu trin a'u trafod i gefnogi'r oedolyn sydd mewn perygl os ydyn nhw am barhau i weld y person, neu os nad ydyn nhw am gael cyswllt mwyach.

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

# Beth sy'n digwydd wedi hynny?

## Byddwn ni'n gofyn i chi:

**Os ydych chi'n teimlo'n fwy diogel nawr.**

**Os ydych chi'n fodlon ar yr hyn a wnaethon ni i'ch helpu chi neu a oes unrhyw beth arall yr hoffech chi i ni ei wneud.**

**Os ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi eich trin chi'n gywir.**

Rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n dweud wrthym ni beth yw eich barn, fel bod modd i ni adolygu sut rydyn ni'n gwneud pethau a gwneud gwelliannau os oes angen.

# Pa mor hir fydd y broses yn ei chymryd?

Mae hyd y broses yn dibynnu ar beth yw'r pryderon. Weithiau mae modd i'r broses fod yn eithaf cyflym, ond yn aml gall fod ychydig yn hirach.

Byddwch chi'n derbyn y newyddion diweddaraf, ac os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ar unrhyw adeg, mae modd i chi siarad â ni bob amser.

**Os ydych chi'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, y manylion cyswllt yw:**
adultsafeguardingMASH@bridgend.gov.uk
01656 642477

**Os ydych chi'n byw ym Merthyr Tudful, y manylion cyswllt yw:**
adult.protection@merthyr.gov.uk
01685 725000

**Os ydych chi'n byw yn Rhondda Cynon Taf, y manylion cyswllt yw:**
Oedolionmewnperygl@rctcbc.gov.uk
01443 425003

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

# Nodiadau